Joint Council for Qualifications CIC

DIWYGIAD

# Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (*AI*) mewn Asesiadau: Eich rôl mewn perthynas â diogelu uniondeb cymwysterau

At sylw Penaethiaid Canolfannau, Athrawon ac Aseswyr

Cyhoeddwyd ar: 26 Ebrill 2023
Diwygiad un: 2 Chwefror 2024
Diwygiad dau: 30 Ebrill 2025

Cynhyrchwyd ar ran:

©JCQ CIC 2025

# Crynodeb gweithredol

Er bod y posibilrwydd o fyfyrwyr yn camddefnyddio deallusrwydd artiffisial (*AI*) yn rhywbeth cymharol newydd, nid felly'r rhan fwyaf o'r ffyrdd i atal hynny a lliniaru'r risgiau cysylltiedig; bydd mesurau ar waith sydd wedi hen ennill eu plwyf mewn canolfannau yn barod i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cyflwyno eu gwaith annibynnol eu hunain i'w asesu ac adnabod camymddwyn posibl.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at y rheoliadau sy'n gymwys mewn perthynas â defnyddio AI mewn asesiadau ac mae'n darparu canllawiau i helpu athrawon ac aseswyr mewn canolfannau.

Mae'r ddogfen hon yn pwysleisio'r gofynion canlynol:

- Yn unol ag adran 5.3(k) dogfen *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy y CGC* (https://www.cbac.co.uk/media/knbj5mcm/3-general-regulations-2023-2024_final_clean-w.pdf), rhaid i athrawon ac aseswyr dderbyn gwaith y myfyrwyr eu hunain yn unig i'w asesu;
- Bydd myfyrwyr sy'n camddefnyddio AI i'r graddau nad yw'r gwaith maen nhw'n ei gyflwyno i'w asesu yn waith iddyn nhw wedi camymddwyn, yn unol â rheoliadau'r CGC, a gallen nhw gael eu cosbi'n llym am hynny;
- Rhaid i fyfyrwyr a staff canolfannau fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n perthyn i ddefnyddio AI a rhaid iddyn nhw fod yn gwbl glir beth yw camymddwyn;
- Rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn gallu dangos mai eu gwaith nhw eu hunain yw'r gwaith maen nhw'n ei gyflwyno i'w asesu. Os atgynhyrchir unrhyw rannau o'u gwaith yn uniongyrchol o ymatebion wedi'u cynhyrchu drwy AI, yna rhaid i'r myfyriwr enwi'r rhannau hynny. Rhaid iddyn nhw ddeall hefyd na fydd hyn yn caniatáu iddyn nhw ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf marcio yn annibynnol. Oherwydd hynny, ni fyddan nhw'n derbyn marciau (gweler yr adrannau Cydnabod y defnydd o AI a Defnyddio AI a marcio isod ac Atodiad B: Enghreifftiau o ddefnyddio AI wrth farcio gwaith myfyrwyr ar ddiwedd y ddogfen hon); ac
- Os oes gan athrawon amheuon ynghylch dilysrwydd gwaith myfyrwyr a gyflwynwyd i'w asesu (er enghraifft, eu bod yn amau bod rhannau ohono wedi'i gynhyrchu gan AI ond heb gydnabod hynny), yna rhaid iddyn nhw ymchwilio a gweithredu fel y bo'n briodol.

Sefydlwyd dulliau adnabod, adrodd yn ôl am ac ymchwilio i gamymddwyn ar ran myfyrwyr gan staff, arholwyr a chymedrolwyr cyrff dyfarnu'r CGC, ac mae hyn yn cynnwys camddefnyddio AI.

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at ddulliau AI a dulliau canfod AI fel yr oedden nhw ar adeg cyhoeddi; mae cyrff dyfarnu'r CGC yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn a byddan nhw'n diweddaru'r ddogfen hon pan fo'n briodol gwneud hynny.

Mae enghreifftiau o achosion lle mae ymgeiswyr wedi camddefnyddio AI a marcio gwaith ymgeiswyr lle defnyddiwyd dulliau AI i'w cael yn atodiadau A a B y ddogfen hon.

Gellir cael gafael ar ddeunyddiau cefnogi ychwanegol, ar gyfer athrawon a myfyrwyr, yma:

JCQ-AI-poster-for-students-2.pdf

JCQ-AI-information-sheet-for-teachers-1.pdf

Updating the JCQ guidance on AI Use in Assessments - JCQ, Y Cyd-Gyngor Cymwysterau – bydd yn mynd â chi i gysylltau ar gyfer dau gyflwyniad – un i'r uwch dîm arwain ei ddefnyddio gydag athrawon ac un i athrawon ei ddefnyddio gyda myfyrwyr

# Cynnwys


1. Yr asesiadau y mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn berthnasol iddynt ........ 1

2. Beth yw defnydd o AI a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau? ........ 2

3. Beth yw camddefnyddio AI gan fyfyrwyr? ........ 4

4. Cyfrifoldebau'r ganolfan ........ 5

5. Cydnabod defnydd o AI ........ 7

6. Defnyddio AI a marcio ........ 9

7. Atal AI rhag cael ei gamddefnyddio mewn asesiadau ........ 10

8. Nodi achosion o gamddefnyddio mewn asesiadau ........ 11

9. Rhoi gwybod ........ 14

10. Gweithredoedd Cyrff Dyfarnu ........ 15

Atodiad A: Enghreifftiau o gamddefnyddio AI ........ 16

Atodiad B: Enghreifftiau o ddefnyddio AI wrth farcio gwaith myfyrwyr ........ 20

Atodiad C: Darnau o reoliadau a chanllawiau'r CGC sy'n berthnasol i ddefnyddio AI ........ 23

# Newidiadau allweddol ers y fersiwn diwethaf

| Adran | Paragraff | Crynodeb o'r newid |
|---|---|---|
| Clawr blaen | Teitl y ddogfen | Wedi ychwanegu ei bod at sylw Penaethiaid Canolfannau, yn ogystal ag athrawon ac aseswyr |
| Crynodeb gweithredol | Paragraff olaf | Wedi ychwanegu cysylltau i'r deunyddiau cefnogi ychwanegol sydd ar gael ar wefan y CGC |
| 1. Yr asesiadau y mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn berthnasol iddynt | Paragraff cyntaf | Wedi ychwanegu bod yn rhaid cymryd gofal ynghylch defnyddio gliniaduron mewn arholiadau, er mwyn sicrhau na ellir cael gafael ar ddulliau AI |
| 2. Beth yw defnydd o AI a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau? | Rhestrau pwyntiau bwled yn nodi enghreifftiau o ddulliau AI | Wedi ychwanegu dulliau ychwanegol, gan gynnwys y rhai a all greu cynnwys fideo |
| 3. Beth yw camddefnyddio AI gan fyfyrwyr? | Ail baragraff | Wedi ychwanegu cysylltau i ddogfennau eraill y CGC lle caiff yr hyn sy'n ofynnol gan fyfyrwyr ei nodi |
| 4. Cyfrifoldebau'r ganolfan | Adran gyntaf | Wedi ychwanegu cyfeiriad at gyfrifoldebau Penaethiaid Canolfannau a nodir yn y *Rheoliadau Cyffredinol* yn ogystal â chyfeiriad at reoliadau perthnasol eraill |
| 4. Cyfrifoldebau'r ganolfan | Rhestr wedi'i llythrennu o beth y mae'n rhaid i ganolfannau ei wneud | Wedi tynnu un pwynt bwled ac ychwanegu dau bwynt bwled newydd |
| 7. Atal AI rhag cael ei gamddefnyddio mewn asesiadau | Trydydd paragraff | Wedi ychwanegu gwybodaeth am y mecanweithiau y mae'n rhaid i ysgolion eu rhoi ar waith |
| Atodiad A: Enghreifftiau o gamddefnyddio AI | Enghreifftiau 5 a 6 | Wedi ychwanegu dwy enghraifft arall o achosion camymddwyn |
| Atodiad C: Darnau o reoliadau a chanllawiau'r CGC sy'n berthnasol i ddefnyddio AI | Atodiad llawn | Atodiad newydd yn dwyn ynghyd wybodaeth o ddogfennau gwahanol sydd wedi'u cyhoeddi sy'n berthnasol i AI |

# 1. Yr asesiadau y mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn berthnasol iddynt

Mae myfyrwyr dan oruchwyliaeth agos staff wrth gwblhau mwyafrif eu harholiadau a nifer mawr o asesiadau eraill. Mae'r mynediad i ddeunyddiau sydd wedi'u caniatáu yn gyfyngedig ac nid oes hawl defnyddio'r rhyngrwyd. Ni ddylai datblygiadau ym maes dulliau AI effeithio ar y ffordd y caiff yr asesiadau hyn eu cynnal gan na ddylai myfyrwyr allu defnyddio dulliau o'r fath wrth gwblhau'r asesiadau hyn, ond dylid cymryd gofal pan fydd caniatâd i fyfyriwr ddefnyddio gliniadur neu ddyfais debyg ar gyfer arholiadau, er mwyn sicrhau nad yw'n gallu cael gafael ar unrhyw ddulliau AI (gweler adrannau 14.20-14.27 o'r ddogfen *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*).

Caiff mynediad i'r rhyngrwyd ei ganiatáu yng nghamau paratoi, ymchwil neu gynhyrchu rhai asesiadau. Asesiadau Di-arholiad, gwaith cwrs ac asesiadau mewnol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol fydd mwyafrif yr asesiadau hyn. Bwriad pennaf y ddogfen hon yw esbonio'r rheoliadau a rhoi arweiniad ategol o ran yr asesiadau hyn.

# 2. Beth yw defnydd o AI a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau?

Mae defnydd o AI yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at y defnydd o ddulliau AI i gael gwybodaeth a chynnwys y gellid eu defnyddio mewn gwaith sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer asesiadau, sy'n cyfrannu at ddyfarnu cymwysterau.

Os caiff ei gyfeirnodi'n briodol, gall hyn fod yn dderbyniol, ond ni ellir rhoi marciau am unrhyw waith y mae myfyrwyr yn ei gynhyrchu i'w asesu nad ydyn nhw wedi'i greu eu hunain felly mae'n debyg mai budd cyfyngedig y byddan nhw'n ei gael o ddefnyddio AI ac mae risg y byddan nhw'n camymddwyn os caiff AI ei gamddefnyddio.

Math o ddull AI yw sgwrsfotiau AI sy'n cynhyrchu testun mewn ymateb i ysgogiadau a chwestiynau'r defnyddiwr. Gall defnyddwyr ofyn cwestiynau dilynol neu ofyn i'r sgwrsfot ddiwygio'r ymatebion a ddarparwyd yn barod. Mae'r sgwrsfot AI yn ymateb i ysgogiadau sy'n seiliedig ar batrymau yn y setiau data (model iaith fawr) maen nhw wedi derbyn hyfforddiant ynddyn nhw. Mae'r ymatebion a gynhyrchir ganddyn nhw yn debygol yn ystadegol o fod yn berthnasol ac yn briodol. Gall y sgwrsfot AI gwblhau tasgau fel y rhai sy'n dilyn:

- Ateb cwestiynau
- Dadansoddi, gwella, a chrynhoi testun
- Awduro traethodau, erthyglau, ffuglen, a darnau ffeithiol
- Ysgrifennu cod cyfrifiadurol
- Cyfieithu testun o un iaith i iaith arall
- Cynhyrchu syniadau, ysgogiadau, neu awgrymiadau newydd ar gyfer testun neu thema benodol
- Cynhyrchu testun gyda phriodoleddau penodol, megis tôn, teimlad, neu ffurfioldeb

Mae dulliau AI sydd ar gael yn cynnwys:

- ChatGPT (https://chat.openai.com/auth/login)
- Jenni AI (https://jenni.ai)
- Jasper AI (https://www.jasper.ai/)
- Writesonic (https://writesonic.com/chat/)
- Bloom AI (https://huggingface.co/bigscience/bloom)
- Gemini (https://gemini.google.com/)
- Claude (https://claude.ai/)
- Gauth (https://gauthmath.com/)
- Question AI (https://questionai.com/)
- Brainly (https://brainly.com/)

Mae rhai dulliau AI y gellir eu defnyddio i gynhyrchu delweddau, cerddoriaeth neu fideo hefyd, megis:

- Midjourney (https://midjourney.com/showcase/top/)
- Stable Diffusion (https://stablediffusionweb.com/)
- Dalle-E 2 (OpenAI) (https://openai.com/dall-e-2/)
- Soundraw (https://soundraw.io/)
- Musicfy (https://create.musicfy.lol/)
- Runway (https://runwayml.com/)
- LTX Studio (https://ltx.studio/)

Mae'n bwysig bod athrawon a myfyrwyr yn ymwybodol bod yr amrywiaeth o ddulliau AI a'u galluoedd yn ehangu'n gyflym, a bod cyfyngiadau ar eu defnydd, megis cynhyrchu cynnwys sy'n anghywir neu'n amhriodol.

Mae'r rhestrau o rai cyflenwyr cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag AI er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n golygu bod y CGC yn eu cymeradwyo. Cyfrifoldeb pob canolfan neu unigolyn yw ymchwilio i unrhyw gyflenwyr a ddefnyddir a'u dilysu, gan gynnwys unrhyw delerau ac amodau sy'n llywodraethu gwerthiant neu ddefnydd cynhyrchion y cyflenwr. Nid yw'r rhestrau a ddarperir yn gynhwysfawr.

Gall defnyddio dulliau AI beri risgiau sylweddol os cânt eu defnyddio gan fyfyrwyr sy'n cwblhau asesiadau ar gyfer cymhwyster, yn enwedig y risg o gamymddwyn, y gall cosbau difrifol fod yn gysylltiedig ag ef. Hefyd, fel y nodwyd uchod, mae'r dulliau wedi cael eu datblygu i lunio ymatebion yn seiliedig ar y tebygolrwydd ystadegol y caiff yr iaith ei dewis fel ymateb priodol ac felly ni ellir dibynnu ar yr ymatebion. Yn aml mae dulliau AI yn cynhyrchu atebion sy'n rhyw fras argyhoeddi ond yn cynnwys gwybodaeth sy'n anghywir neu â thuedd. Nodwyd bod rhai dulliau AI yn cynnig atebion i gwestiynau a all ysgogi gweithredoedd amhriodol, a gall rhai hefyd gynhyrchu cyfeirnodau ffug i lyfrau/erthyglau.

## 3. Beth yw camddefnyddio AI gan fyfyrwyr?

Yn unol ag adran 5.3(k) dogfen *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy y CGC* (https://www.cbac.co.uk/media/q3qlsaju/3-general-regulations-2024_25.pdf), rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith eu hunain yn unig i'w asesu. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr mewnol a phreifat.

Mae'n rhaid i waith myfyrwyr a gyflwynir i'w asesu fod wedi'i ysgrifennu yn eu geiriau nhw eu hunain. Ni ddylai fod wedi'i gopïo na'i aralleirio o ffynhonnell arall megis dull AI, a rhaid iddo adlewyrchu eu gwaith annibynnol nhw eu hunain. Rhaid i fyfyrwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth eu hunain yn ôl gofynion y cymhwyster dan sylw a'r hyn sydd wedi'i nodi ym manyleb y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys dangos eu perfformiad mewn perthynas ag amcanion asesu'r pwnc sy'n berthnasol i'r cwestiwn (cwestiynau) neu dasgau eraill a osodwyd i'r myfyrwyr.

Caiff y gofynion ar gyfer myfyrwyr eu nodi yn y dogfennau:

- Gwybodaeth i Ymgeiswyr y CGC – Asesiadau di-arholiad
- Gwybodaeth i Ymgeiswyr y CGC – Asesiadau gwaith cwrs

Er bod AI yn dod yn ddull defnyddiol yn y gweithle, at ddibenion dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer cymwysterau, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r pynciau y maen nhw'n eu hastudio ac nad ydyn nhw'n dibynnu ar AI.

Rhaid i fyfyrwyr allu dangos mai cynnyrch eu gwaith a'u syniadau annibynnol eu hunain yw'r cyflwyniad terfynol.

Camddefnyddio AI yw lle mae myfyriwr wedi defnyddio un neu fwy o ddulliau AI ond heb gydnabod y defnydd hwn yn briodol gan gyflwyno gwaith i'w asesu nad yw'n waith wedi'i greu gan yr ymgeisydd ei hun. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gamddefnyddio AI ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- Copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI fel nad yw'r gwaith a gyflwynwyd i'w asesu bellach yn waith y myfyriwr ei hun.
- Copïo neu aralleirio ymatebion cyfan o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI.
- Defnyddio AI i gwblhau rhannau o'r asesiad fel nad yw'r gwaith yn adlewyrchu gwaith y myfyriwr ei hun, ei ddadansoddi, ei werthuso na'i gyfrifiadau.
- Methiant i gydnabod y defnydd o ddulliau AI pan fyddan nhw wedi'u defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth.
- Cydnabyddiaeth anghyflawn neu wael o ddulliau AI.
- Cyflwyno gwaith sy'n cynnwys cyfeirnodau neu lyfryddiaethau sy'n fwriadol anghyflawn neu'n gamarweiniol.

Mae camddefnyddio AI yn golygu camymddwyn yn ôl diffiniad dogfen y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/). Ymhlith y sancsiynau camymddwyn sydd ar gael am dramgwyddo fel '*gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd*' a '*llên-ladrad*' mae diarddeliad a gwaharddiad rhag cwblhau cymwysterau am nifer o flynyddoedd. Gall effeithio ar farciau myfyrwyr hefyd os ydyn nhw wedi dibynnu ar AI i gwblhau asesiad ac, fel y nodwyd uchod, os nad yw'r cyrhaeddiad a ddangoswyd ganddyn nhw o ran gofynion y cymhwyster yn adlewyrchiad cywir o'u gwaith eu hunain.

Mae enghreifftiau o achosion o gamddefnyddio AI yr ymdriniwyd â nhw gan gyrff dyfarnu i'w cael yn Atodiad A: Enghreifftiau o gamddefnyddio AI ar ddiwedd y ddogfen hon.

# 4. Cyfrifoldebau'r ganolfan

Yn unol ag adran 5.3(k) dogfen *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy y CGC* (https://www.cbac.co.uk/media/q3qlsaju/3-general-regulations-2024_25.pdf), Pennaeth y Ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod gwaith myfyrwyr a gaiff ei asesu gan y ganolfan yn cael ei gynhyrchu, ei ddilysu a'i farcio yn unol â chyfarwyddiadau'r cyrff dyfarnu. Mae hyn yn berthnasol i bob ymgeisydd, gan gynnwys ymgeiswyr preifat.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt mewn perthynas ag asesu sy'n monitro ac yn gwirio'n effeithiol mai eu gwaith eu hunain y mae myfyrwyr yn ei gyflwyno i'w asesu. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod y rhain yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio AI hefyd.

Mae rheoliadau perthnasol eraill yn cynnwys:

- Mae adran 5.3 (z) o *Reoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy y CGC* (https://www.cbac.co.uk/https://www.cbac.co.uk/media/q3qlsaju/3-general-regulations-2024_25.pdf) yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau sicrhau bod ganddynt bolisi camymddwyn sydd ar gael i'w archwilio. Rhaid i'r polisi gwmpasu'r defnydd o AI (beth ydyw, pryd y ceir ei ddefnyddio a sut y dylid ei gydnabod, risgiau defnyddio AI, a beth yw camddefnyddio AI a sut y caiff hyn ei drin fel achos o gamymddwyn). Mae adran 3.3 o bolisïau a gweithdrefnau camymddwyn y CGC yn nodi bod yn rhaid i ganolfannau gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn.
- Mae adran 7 y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs ac adrannau 4.1, 4.6 a 9 y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau asesiadau di-arholiad yn esbonio'r gofynion o ran goruchwylio a dilysu.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau, mae'n rhaid i athrawon, aseswyr a staff eraill wneud y canlynol:

- adolygu'r defnydd o AI mewn asesiadau ar gyfer cymwysterau yn rheolaidd a chytuno sut maen nhw'n bwriadu gweithredu i reoli defnydd myfyrwyr o AI yn eu hysgol, coleg neu ganolfan arholiadau.
- tynnu sylw myfyrwyr at ddefnydd priodol ac amhriodol o AI, risgiau defnyddio AI, a chanlyniadau posibl defnyddio AI yn amhriodol mewn asesiad ar gyfer cymhwyster. Drwy wneud hynny, efallai y bydden nhw'n hoffi defnyddio deunyddiau cefnogi'r CGC y cyfeirir atyn nhw yn y Crynodeb Gweithredol.
- tynnu sylw myfyrwyr at sut mae'r ganolfan yn gweithredu o ran llên-ladrad a chanlyniadau camymddwyn.
- ystyried y ffordd orau o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr er mwyn iddyn nhw fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r materion a sicrhau eu bod yn cefnogi'r ganolfan o ran sut mae'n gweithredu.

a rhaid i ganolfannau:

a) Esbonio i fyfyrwyr pa mor bwysig yw cyflwyno gwaith sydd o ganlyniad i'w hymdrechion annibynnol eu hunain ar gyfer asesiadau a phwysleisio wrthyn nhw a'u rhieni/gofalwyr beth yw risgiau camymddwyn;

b) Adolygu polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan yn rheolaidd er mwyn cydnabod y defnydd o AI (e.e. beth ydyw, risgiau ei ddefnyddio, beth yw camddefnyddio AI, sut bydd hyn yn cael ei drin fel camymddwyn, pa bryd y gellid ei ddefnyddio a sut y bydd athrawon yn dilysu gwaith);

c) Sicrhau bod polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan yn cynnwys canllawiau clir ar sut y mae'n rhaid i fyfyrwyr gyfeirnodi'n briodol (gan gynnwys gwefannau);

d) Sicrhau bod polisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan yn cynnwys arweiniad clir ar sut y mae'n rhaid i fyfyrwyr gydnabod unrhyw ddefnydd o AI er mwyn osgoi ei gamddefnyddio (gweler yr adran isod ar Gydnabod y defnydd o AI);

e) Sicrhau bod athrawon ac aseswyr yn gyfarwydd â dulliau AI, eu risgiau a dulliau canfod AI (gweler yr adrannau Beth yw defnydd o AI a beth yw risgiau ei ddefnyddio mewn asesiadau? a Beth yw camddefnydd o AI gan fyfyrwyr?);

f) Sicrhau, os yw myfyrwyr yn defnyddio prosesyddion geiriau neu gyfrifiaduron i gwblhau asesiadau, bod athrawon a staff perthnasol y ganolfan yn ymwybodol sut i analluogi mynediad amhriodol i'r rhyngrwyd/AI lle mae wedi'i wahardd;

g) Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn copi o ddogfen briodol y CGC *Gwybodaeth i Ymgeiswyr* (www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents) a'u bod yn deall y ddogfen honno;

h) Ategu wrth y myfyrwyr beth yw arwyddocâd eu datganiad lle maen nhw'n cadarnhau bod y gwaith sy'n cael ei gyflwyno ganddyn nhw yn waith iddyn nhw eu hunain yn unig, canlyniadau datganiad ffug, a'u bod yn deall ac wedi dilyn y gofynion ar gyfer y pwnc;

i) Dylech atgoffa myfyrwyr bod staff, arholwyr a chymedrolwyr y corff wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer adrodd yn ôl ac ymchwilio i gamymddwyn (gweler yr adran camau'r Cyrff Dyfarnu isod a'r enghreifftiau o gamddefnyddio AI yr ymdriniwyd â nhw gan gyrff dyfarnu yn Atodiad A: enghreifftiau o gamddefnyddio AI ar ddiwedd y ddogfen hon);

j) Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol na chân nhw ddefnyddio dulliau AI fel unig farciwr gwaith myfyrwyr (gweler yr adran Defnyddio AI a marcio isod);

k) Sicrhau bod athrawon a Phenaethiaid Adrannau yn glir o ran eu cyfrifoldeb i ddilysu a chyflwyno gwaith i'w asesu gan y corff dyfarnu os ydyn nhw'n hyderus mai gwaith y myfyriwr ei hun ydyw;

l) Sicrhau bod proses ar waith i staff addysgu ei dilyn pan amheuir bod AI wedi cael ei gamddefnyddio cyn i'r myfyriwr lofnodi'r ffurflen datganiad gan nad oes angen rhoi gwybod am hyn i'r corff dyfarnu a rhaid i'r ganolfan ymdrin â'r mater yn uniongyrchol.

# 5. Cydnabod defnydd o AI

Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn deall pa mor bwysig yw cyfeirnodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw wrth gynhyrchu gwaith ar gyfer asesiad, a'u bod yn gwybod sut i wneud hyn. Mae cyfeirnodi priodol yn ffordd o ddangos uniondeb academaidd ac yn allweddol o ran cynnal uniondeb asesiadau. Os bydd myfyriwr yn defnyddio dull AI sy'n rhoi manylion y ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddo wrth gynhyrchu cynnwys, yna rhaid i'r myfyriwr wirio'r ffynonellau hyn a'u cyfeirnodi yn ei waith yn y ffordd arferol. Os nad yw dull AI yn cynnig manylion o'r fath, rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn gwirio'r cynnwys a gynhyrchwyd gan AI yn annibynnol – ac yna cyfeirnodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw.

Os bydd myfyrwyr yn cydnabod eu bod wedi defnyddio AI ac yn dangos yn glir sut maen nhw wedi'i ddefnyddio, mae'n bosibl wedyn i athrawon ac aseswyr adolygu'r defnydd o AI a ph'un a oedd y defnydd hwnnw'n briodol yng nghyd-destun yr asesiad penodol hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ystyried nad yw'r un dulliau craffu academaidd yn digwydd ar gynnwys a gynhyrchwyd gan AI yn yr un modd â ffynonellau cyhoeddedig eraill.

Os defnyddiwyd dulliau AI fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i'r myfyriwr ddangos wrth gydnabod hynny beth oedd enw'r ffynhonnell AI a ddefnyddiwyd a'r dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft:

ChatGPT 3.5 (https://openai.com/ blog/chatgpt/), 25/01/2025.

Rhaid i'r myfyriwr gadw copi o'r cwestiwn/cwestiynau a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a chynnig esboniad byr o sut y cafodd ei ddefnyddio.

Rhaid cynnwys hyn gyda'r gwaith i'w asesu er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan AI a sut y cafodd ei ddefnyddio. Os nad yw hyn yn cael ei gyflwyno, ond bod yr athro/aseswr yn amau bod y myfyriwr wedi defnyddio dulliau AI, bydd angen i'r athro/aseswr edrych ar bolisi camymddwyn y ganolfan i weld pa gamau i'w dilyn nesaf gan weithredu hefyd i sicrhau bod y gwaith yn waith y myfyriwr ei hun. Os na all yr athro/aseswr sicrhau ei hun, rhaid iddo ddilyn gweithdrefnau mewnol ei ganolfan a'r canllawiau asesu cyhoeddedig.

Ceir canllawiau pellach yn nogfen *Llên-ladrad mewn Asesiadau'r CGC* (gweler y cyswllt isod).

Mae rheoliadau'r CGC i ymgeiswyr ynghylch cyfeirnodi i'w gweld yn y canlynol:

- *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs (https://www.cbac.co.uk/media/sykb2mes/7-coursework-icc-24_25-w.pdf)*
- Y dogfennau *Gwybodaeth i Ymgeiswyr (*https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents*)*

Mae canllawiau'r CGC i athrawon ynghylch cyfeirnodi i'w gweld yn y canlynol:

- *Llên-ladrad mewn Asesiadau* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/ plagiarism-in-assessments---guidance-for-teachersassessors/)

Pethau eraill i'w hystyried o ran cydnabod y defnydd o AI yw:

a) Caiff myfyrwyr eu hatgoffa, fel gydag unrhyw ffynhonnell, y gall cyfeirnodi gwael, aralleirio a chopïo darnau o destun fod yn achos o gamymddwyn, a gallai arwain at gosbau llym, gan gynnwys diarddel. Yng nghyd-destun defnyddio AI, rhaid i fyfyrwyr fod yn glir o ran yr hyn sydd yn dderbyniol a'r hyn sydd ddim yn dderbyniol o ran cydnabod cynnwys AI a'r defnydd o ffynonellau AI. Er enghraifft, byddai'n annerbyniol cynnwys y cyfeirnod 'AI' neu 'ChatGPT' yn unig, yn yr un modd ag y byddai'n annerbyniol nodi 'Llyfrgell' yn hytrach na theitl y llyfr, enw'r awdur, y bennod a'r dudalen;

b) Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd, os ydyn nhw'n defnyddio AI, ni fyddan nhw wedi bodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol ac felly ni fyddan nhw'n cael marciau. Ceir enghreifftiau o sut i roi hyn ar waith yn Atodiad B: Enghreifftiau o ddefnyddio AI wrth farcio gwaith myfyrwyr ar ddiwedd y ddogfen hon.

# 6. Defnyddio AI a marcio

Wrth farcio gwaith myfyriwr lle cydnabyddir bod defnydd o AI, ac nad oes pryderon o gamddefnyddio AI, rhaid i'r aseswr sicrhau o hyd nad yw'r myfyriwr yn cael ei wobrwyo os ydyw wedi defnyddio dulliau AI a heb fodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol. Yn dibynnu ar y meini prawf marcio neu'r disgrifyddion graddau a ddefnyddir, efallai y bydd angen i'r aseswr ystyried methiant y myfyriwr i ddangos yn annibynnol ei ddealltwriaeth o agweddau penodol wrth bennu'r marc priodol/gradd briodol i'w rhoi. Os oes defnydd o AI o'r fath wedi'i ystyried, ac yn enwedig lle mae hyn wedi effeithio ar y marciau/graddau terfynol a roddwyd gan yr aseswr, dylid cadw cofnodion clir – mae hyn yn cynnig adborth i'r myfyriwr ac yn cynnig eglurder os oes apêl fewnol neu os yw'r gwaith yn cael ei ddewis ar gyfer dilysu cymedroli/safonau.

Mae enghreifftiau o sut i ystyried y defnydd o AI a gydnabyddir wrth farcio i'w gweld yn

Atodiad B: Enghreifftiau o ddefnyddio AI wrth farcio gwaith myfyrwyr.

Gall canolfannau bennu, ar ôl ystyried unrhyw bryderon ynghylch preifatrwydd data yn ofalus, p'un a ydyw'n briodol i'w hathrawon a'u haseswyr ddefnyddio dulliau AI i helpu wrth farcio gwaith myfyrwyr. Lle mae canolfannau'n caniatáu dulliau AI i farcio gwaith myfyrwyr, ni chaniateir i'r dull AI fod yr unig farciwr. Rhaid i aseswr dynol adolygu'r holl waith yn ei gyfanrwydd a phennu'r marc y mae'n credu sy'n deilwng, ni waeth beth fo canlyniadau dull AI. Mae'r aseswr yn parhau i fod yn gyfrifol am y marc/gradd a roddir.

# 7. Atal AI rhag cael ei gamddefnyddio mewn asesiadau

Er y gall fod manteision i ddefnyddio AI mewn rhai sefyllfaoedd, mae posibilrwydd hefyd y gall myfyrwyr ei gamddefnyddio, naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol. Gall camddefnyddio AI, mewn ffordd sy'n cynnwys myfyrwyr yn cyflwyno gwaith i'w asesu ar gyfer cymhwyster nad yw'n waith iddyn nhw, gael ei ystyried yn fath o lên-ladrad. Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch llên-ladrad gan y CGC sy'n cynnwys gwybodaeth am beth yw llên-ladrad, sut i'w atal, a sut i'w ganfod (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/plagiarism-in-assessments---guidance-for-teachersassessors/).

Rhaid i athrawon ac aseswyr fod yn sicr mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r gwaith y maen nhw'n ei dderbyn i'w asesu a'i farcio. Mae'n ofynnol iddyn nhw gadarnhau hyn yn ystod y broses asesu ac, os bydd amheuon ganddyn nhw, rhaid iddyn nhw ddilyn gweithdrefnau mewnol y ganolfan a'r canllawiau asesu cyhoeddedig.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod mecanweithiau ar waith, fel y nodwyd yn flaenorol yn adran, 'Cyfrifoldebau'r Ganolfan', sy'n cynnwys:

- y dull y bydd y ganolfan yn ei ddefnyddio i atal achosion o gamddefnyddio AI a'u nodi ym mhob un o'r pynciau, gan gynnwys gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, y mae'n eu cyflwyno, gan gynnwys y dull a ddefnyddir ar gyfer unrhyw ymgeiswyr preifat.
- y broses i'w dilyn pan fydd pryderon ynghylch camddefnyddio AI cyn i waith y myfyriwr gael ei ddilysu. Yn y sefyllfa hon, y ganolfan sy'n gyfrifol am bennu'r camau nesaf ac ni ddylai athro/aseswr gyfeirio'r gwaith at y corff dyfarnu am benderfyniad.

Y rhai sy'n gweithio gyda'r myfyrwyr yn rheolaidd ac sy'n gyfarwydd â'u gallu a safon eu gwaith sydd yn y sefyllfa orau fel arfer i wneud penderfyniadau ynghylch camddefnyddio AI er bod y corff dyfarnu perthnasol ar gael i roi cyngor ac arweiniad i'r ganolfan pan fo angen.

I atal camddefnydd, yr hyn sy'n allweddol mae'n debyg yw addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r staff a'r myfyrwyr. Dyma rai camau y gellid eu cymryd (bydd llawer o ganolfannau eisoes yn gwneud hyn gan nad yw'r gofynion yn rhai newydd):

a) Ystyried cyfyngu ar fynediad i ddulliau AI ar-lein ar ddyfeisiau a rhwydweithiau'r ganolfan;

b) Sicrhau bod mynediad wedi'i gyfyngu i ddulliau AI ar-lein ar ddyfeisiau'r ganolfan a ddefnyddir ar gyfer arholiadau;

c) Pennu terfynau amser rhesymol ar gyfer cyflwyno gwaith ac atgoffa am hynny;

d) Lle y bo'n briodol, dyrannu amser i gyflawni cyfrannau digonol o waith dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r athro ddilysu gwaith pob myfyriwr yn hyderus;

e) Archwilio ar adegau gwahanol yn y broses o gynhyrchu'r gwaith er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo mewn ffordd drefnus ac amserol a bod y gwaith a gyflwynir yn dangos ei fod wedi parhau'n naturiol o'r camau cynharach;

f) Cyflwyno gweithgareddau ystafell ddosbarth sy'n defnyddio'r lefel o wybodaeth/dealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod y cwrs sy'n golygu bod yr athro yn gallu bod yn hyderus yn nealltwriaeth y myfyriwr o'r deunydd;

g) Ystyried p'un a yw'n ddefnyddiol cael trafodaeth fer â'r myfyrwyr ar lafar am eu gwaith. Bwriad gwneud hyn yw penderfynu a ydyn nhw'n deall y gwaith hwnnw a'i fod yn amlwg yn waith maen nhw wedi'i gyflawni'n annibynnol eu hunain;

h) Peidio â derbyn unrhyw waith y mae staff yn amau sydd wedi dod o ddulliau AI heb gydnabyddiaeth iawn neu ei fod wedi'i lên-ladrata fel arall, heb

ymchwilio ymhellach i'r mater. Byddai gwneud hynny'n annog lledaenu'r arfer hwn ac mae hynny'n debygol o gael ei ystyried yn gamymddwyn gan staff a gall fod sancsiynau am hynny.

i) Cyhoeddi tasgau ar gyfer aseiniadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan sydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn amserol, yn gyfredol ac yn benodol. Dylai fod gofyn creu cynnwys felly sy'n llai tebygol o fod o fewn cyrraedd i fodelau AI sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio data hanesyddol.

# 8. Nodi achosion o gamddefnyddio mewn asesiadau

I nodi achosion o gamddefnyddio AI gan fyfyrwyr, mae angen i athrawon ddefnyddio'r un sgiliau a thechnegau arsylwi ag y maen nhw eisoes yn eu defnyddio i sicrhau bod gwaith myfyrwyr yn waith dilys iddyn nhw eu hunain. Mae rhai dulliau y gellir eu defnyddio hefyd. Caiff y dulliau gwahanol hyn eu trafod isod.

## Cymharu â gwaith blaenorol

Wrth adolygu darn o waith penodol i sicrhau ei fod yn ddilys, mae'n syniad da ei gymharu â gwaith arall a grëwyd gan y myfyriwr. Gallai athrawon ystyried cymharu gwaith sydd newydd ei gyflwyno â gwaith a gwblhawyd gan y myfyriwr yn yr ystafell ddosbarth, neu dan amodau dan oruchwyliaeth. Lle mae'r gwaith yn waith ysgrifenedig, mae'n bosibl talu sylw i'r nodweddion canlynol:

- Sillafu ac atalnodi
- Defnydd o ramadeg
- Arddull a chywair yr ysgrifennu
- Geirfa
- Cymhlethdod a chydlyniant
- Dealltwriaeth a lefel gweithio yn gyffredinol
- Y dull cynhyrchu (h.y. p'un ai'n ysgrifenedig neu'n defnyddio prosesydd geiriau)

## Ymgeiswyr preifat

Gall dilysu dilysrwydd y gwaith a gyflwynir gan ymgeiswyr preifat fod yn fwy heriol i ganolfannau, o ystyried efallai na fydd ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o safon gwaith y myfyriwr ar hyn o bryd. Cyn derbyn cofrestriadau gan ymgeisydd preifat ar gyfer pwnc sy'n cynnwys asesiad di-arholiad neu waith cwrs, rhaid i'r ganolfan ystyried y camau y bydd yn eu cymryd a fydd yn galluogi'r athrawon/aseswyr i sicrhau mai gwaith annibynnol y myfyriwr ei hun yw'r gwaith a gyflwynir. Fel rhan o hyn, mae'n bosibl y bydd angen i'r myfyriwr gwblhau rhywfaint o'r gwaith dan oruchwyliaeth, adolygu portffolio o dystiolaeth y myfyriwr ar draws amrywiaeth o gymwysterau a chael trafodaeth fer â'r myfyriwr ynghylch ei waith.

Mae canllawiau pellach ar ddilysu gwaith myfyrwyr i'w gweld yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs* (https://www.cbac.co.uk/media/sykb2mes/7-coursework-icc-24_25-w.pdf).

## Dangosyddion posibl o gamddefnyddio AI

Gallai gweld y canlynol yng ngwaith myfyriwr fod yn arwydd ei fod wedi camddefnyddio AI:

a) Defnydd diofyn o sillafu, arian cyfred a thermau Americanaidd a lleoleiddio arall.

b) Defnydd diofyn o iaith neu eirfa nad yw o bosibl yn cyd-fynd â lefel y cymhwyster (ond byddwch yn ymwybodol y gall dulliau AI gael eu cyfarwyddo i ddefnyddio iaith, cywair neu lefelau gwahanol o hyfedredd wrth gynhyrchu cynnwys).

c) Diffyg dyfyniadau uniongyrchol a/neu ddefnydd o gyfeirnodau pan fo'r rhain yn ofynnol/yn ddisgwyliedig (er y bydd rhai dulliau AI yn cynhyrchu dyfyniadau a chyfeirnodau).

d) Cynnwys cyfeirnodau nad oes modd eu canfod neu eu dilysu (mae rhai dulliau AI wedi darparu cyfeirnodau ffug i lyfrau neu erthyglau gan awduron go iawn).

e) Diffyg cyfeiriad at ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad penodol (gan gyfleu adeg crynhoi ffynhonnell ddata'r dull AI), a all fod yn rhywbeth i dalu sylw iddo mewn rhai pynciau.

f) Achosion o ddefnydd anghywir a/neu anghyson o safbwynt y person cyntaf a'r trydydd person pan nad yw testun a gynhyrchwyd wedi'i newid.

g) Gwahaniaeth yn arddull yr iaith a ddefnyddiwyd o gymharu â'r hyn y mae'r myfyriwr yn ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu mewn gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

h) Amrywiad yn arddull yr iaith sydd i'w weld mewn darn o waith, os yw myfyriwr wedi cymryd darnau sylweddol o destun o AI a'u diwygio wedyn.

i) Diffyg graffiau/tablau data/cymhorthion gweledol pan fyddai disgwyl i'r rhain fod yn bresennol.

j) Diffyg gwybodaeth leol neu destunol benodol.

k) Cynnwys sy'n fwy generig o ran ei natur, a ddim yn ymwneud â'r myfyriwr ei hun, neu dasg neu senario arbenigol, os yw hyn yn ofynnol neu'n ddisgwyliedig.

l) Rhybuddion neu amodau a gynhyrchwyd gan AI wedi'u cynnwys yn ddiofal gan y myfyriwr sy'n amlygu cyfyngiadau ei allu, neu natur ddamcaniaethol yr allbwn mae'n ei roi.

m) Cyflwyno gwaith myfyriwr ar ffurf wedi'i deipio, a'r myfyriwr fel arfer yn cyflwyno gwaith mewn llawysgrifen.

n) Defnyddio sawl gosodiad cloi drwy'r testun mewn ffordd anghyffredin, neu ailadrodd strwythur traethawd trosfwaol sawl gwaith mewn un traethawd hir. Gall hyn fod yn ganlyniad gofyn i AI gynhyrchu traethawd sawl gwaith i ychwanegu dyfnder ac amrywiaeth neu i oresgyn y cyfyngiadau allbwn sy'n perthyn iddo.

o) Cynnwys gosodiadau cryf sydd ddim yn dilyn yn rhesymegol neu osodiadau anghywir yn hyderus mewn cynnwys sy'n gydlynol fel arfer.

p) Iaith hirwyntog neu hyperbolig sydd efallai ddim yn cyfateb i arddull arferol yr ymgeisydd.

### Canfod yn awtomataidd

Gan eu bod yn fodelau iaith mawr, mae dulliau AI yn creu cynnwys drwy fynd ati i ‘ddyfalu’ y gair nesaf mwyaf tebygol mewn dilyniant. Golyga hyn fod cynnwys a gynhyrchwyd gan AI yn defnyddio'r cyfuniadau mwyaf cyffredin o eiriau, yn wahanol i bobl, sy'n defnyddio amrywiaeth o eiriau yn eu hysgrifennu arferol. Mae sawl rhaglen a gwasanaeth yn defnyddio'r gwahaniaeth hwn i ddadansoddi cynnwys ysgrifenedig yn ystadegol a phennu'r tebygolrwydd ei fod wedi'i gynhyrchu gan AI, er enghraifft:

- Copyleaks (https://copyleaks.com/ai-content-detector)
- GPTZero (https://gptzero.me/)
- Sapling (https://sapling.ai/ai-content-detector)
- Canfodydd ysgrifennu Turnitin AI (https://www.turnitin.com/solutions/topics/ai- writing/ai-detector/)

Gellir defnyddio'r rhain i wirio gwaith myfyrwyr a/neu i ddilysu pryderon ynghylch dilysrwydd gwaith myfyrwyr. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y dulliau uchod yn rhoi sgorau is ar gyfer cynnwys a gynhyrchwyd gan AI sydd wedi cael ei ddiwygio gan fyfyrwyr wedi hynny, gan ei bod yn seilio eu sgorau ar ragweladwyedd geiriau. Bydd treulio amser yn dod i adnabod y dulliau canfod yn helpu athrawon ac aseswyr i ddeall yr hyn y maen nhw'n gallu a'r hyn nad ydyn nhw'n gallu ei wneud.

Mae dulliau canfod AI, gan gynnwys y rhai a restrir uchod, yn defnyddio modelau canfod sy'n gallu amrywio o ran cywirdeb, yn dibynnu ar y dull AI a'r fersiwn a ddefnyddiwyd, cyfrannedd y cynnwys sy'n deillio o AI o gymharu â'r cynnwys a luniwyd gan unigolyn, annog mathau a ffactorau eraill (megis cymhwysedd unigolyn yn y Saesneg/Gymraeg). Mewn achosion lle amheuir bod AI wedi'i gamddefnyddio, gall fod yn ddefnyddiol defnyddio mwy nag un dull canfod i gynnig ffynhonnell ychwanegol o dystiolaeth am ddilysrwydd gwaith myfyriwr.

Dylai'r defnydd o ddulliau canfod fod yn rhan o ddull cyfannol o ystyried dilysrwydd

gwaith myfyrwyr; rhaid ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael wrth adolygu unrhyw bryderon ynghylch camymddwyn. Athrawon fydd yn adnabod eu myfyrwyr orau ac felly nhw fydd yn y sefyllfa orau i asesu dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd iddyn nhw i'w asesu – gall dulliau canfod AI fod yn rhan ddefnyddiol o'r dystiolaeth y gallan nhw ei hystyried.

Mae'r rhestr o rai cyflenwyr cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag AI er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n golygu bod y CGC yn eu cymeradwyo. Cyfrifoldeb pob canolfan yw ymchwilio i unrhyw gyflenwyr a ddefnyddir a'u dilysu, gan gynnwys unrhyw delerau ac amodau sy'n llywodraethu gwerthiant neu ddefnydd cynhyrchion y cyflenwr. Nid yw'r rhestr a ddarperir yn un gwbl gyflawn.

# 9. Rhoi gwybod

Os na fydd myfyriwr wedi llofnodi'r datganiad dilysu, nid oes rhaid i ganolfannau roi gwybod i'r corff dyfarnu priodol am y digwyddiad. Rhaid nodi manylion camau i ddatrys achosion o'r fath ym mholisi camymddwyn/llên-ladrad y ganolfan. Rhaid i'r camau hyn gynnwys:

- sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod beth yw camymddwyn,
- sut i osgoi camymddwyn,
- sut i gyfeirnodi ffynonellau'n gywir a chydnabod dulliau AI, ac ati.

Ni ddylai athrawon dderbyn gwaith sydd ddim yn waith y myfyriwr ei hun. Yn y pen draw, cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan yw sicrhau bod ymgeiswyr yn cyflwyno gwaith dilys.

Os bydd canolfan yn canfod neu'n amau bod camddefnydd o AI wedi bod a bod y datganiad dilysu wedi'i lofnodi gan y myfyriwr, yna rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol am yr achos. Mae manylion am y weithdrefn i'w cael yn nogfen y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/).

# 10. Gweithredoedd Cyrff Dyfarnu

Mae cyrff dyfarnu'r CGC yn sicrhau bod staff, cymedrolwyr ac arholwyr yn derbyn hyfforddiant priodol o ran adnabod camymddwyn ac mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer adrodd am amheuon o gamymddwyn ac ymchwilio i gamymddwyn.

Os bydd corff dyfarnu yn nodi achos o gamddefnyddio AI neu os rhoddir gwybod i gorff dyfarnu am achos o'r fath, fel arfer rhennir manylion llawn yr honiad â'r ganolfan. Bydd y corff dyfarnu perthnasol yn cysylltu â Phennaeth y Ganolfan ynghylch camau nesaf yr ymchwiliad a sut y byddan nhw'n cael y dystiolaeth briodol. Yna bydd y corff dyfarnu yn ystyried yr achos ac, os bydd angen, yn gosod sancsiwn yn unol â'r sancsiynau sydd i'w cael yn nogfen y *CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau* (https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/). Mae'r sancsiynau sy'n berthnasol yn achos myfyriwr yn llên-ladrata ac yn cyflwyno datganiad ffug o ddilysrwydd yn amrywio o rybuddio'r myfyriwr ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol i ddiarddel ac atal y myfyriwr hwnnw rhag cofrestru am un neu fwy o arholiadau am gyfnod penodol o amser.

Mae enghreifftiau o achosion o gamddefnyddio AI yr ymdriniwyd â nhw gan gyrff dyfarnu i'w cael yn Atodiad A: Enghreifftiau o gamddefnyddio AI ar ddiwedd y ddogfen hon.

Bydd cyrff dyfarnu yn gweithredu hefyd. Gall hyn gynnwys gosod sancsiynau os yw staff canolfannau yn gwybod eu bod yn derbyn, neu'n methu gwirio, gwaith nad yw'n ddilys ar gyfer asesiadau cymwysterau.

# Atodiad A: Enghreifftiau o gamddefnyddio AI

## Cyflwyniad

Mae'r isod yn enghreifftiau dienw o achosion diweddar o gamymddwyn a oedd yn cynnwys camddefnyddio dulliau AI. Noder, er bod pynciau penodol wedi'u nodi yn yr enghreifftiau isod, gellir cymhwyso'r amgylchiadau a ddisgrifir a'r camau gweithredu a'r sancsiynau cysylltiedig at unrhyw gymhwyster. Dewiswyd y canlynol i roi enghreifftiau sy'n ymdrin ag amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys lle mae canolfannau wedi adrodd yn ôl am bryderon o gamddefnyddio AI a lle mae personél asesu corff dyfarnu wedi nodi problemau posibl. Mae'r bedwaredd enghraifft yn enghraifft o'r hyn a all fynd o'i le pan nad yw prosesyddion geiriau wedi'u gosod yn gywir ar gyfer arholiadau.

## Llên-ladrad – camddefnyddio AI

*Corff dyfarnu: AQA Cymhwyster: Safon Uwch Hanes Asesiad di-arholiad*

Roedd canolfan wedi rhoi gwybod bod pryderon gan un o'r athrawon Safon Uwch Hanes ynghylch cyflwyniadau asesiadau di-arholiad dau ymgeisydd. Sail y pryderon oedd bod sawl adran yn anghyson ag adrannau eraill yng ngwaith yr ymgeiswyr, a lefelau ac arddulliau ysgrifennu arferol yr ymgeiswyr.

Defnyddiodd y ganolfan feddalwedd canfod AI i ddilyn pryderon yr athro. Nodwyd y canlynol yn adolygiad y ganolfan.

Ymgeisydd A: Roedd y feddalwedd canfod AI wedi nodi ei bod yn debygol iawn bod AI wedi cynhyrchu'r gwaith. Cyfaddefodd yr ymgeisydd hwn i ddefnyddio ChatGPT i gynhyrchu canllaw ar gyfer ei waith ei hun a honnodd ei fod wedi cyflwyno'r canllaw yn hytrach na'i waith ei hun ar ddamwain.

Ymgeisydd B: Roedd y feddalwedd canfod AI wedi nodi ei bod yn bosibl fod y gwaith wedi'i gynhyrchu gan AI, ac yn debygol o fod yn gyfuniad o fewnbwn AI a dynol. Cyfaddefodd yr ymgeisydd i ddefnyddio ChatGPT ar gyfer rhywfaint o gynnwys y gwaith, er mwyn gwella'r gwaith yn ogystal â chreu cynnwys cwbl newydd.

Roedd y ganolfan wedi adrodd yn ôl i'r corff dyfarnu am y ddau ymgeisydd ac wedi cadarnhau bod yr holl ddogfennau 'gwybodaeth i ymgeiswyr' perthnasol wedi'u dosbarthu i ymgeiswyr, a bod yr ymgeiswyr wedi llofnodi'r datganiad dilysrwydd i ddatgan mai gwaith eu hunain yw'r gwaith a gwblhawyd.

Canfuwyd bod y ddau ymgeisydd wedi cyflawni achosion o gamymddwyn. Diarddelwyd Ymgeisydd A o'r cymhwyster Safon Uwch Hanes a chollodd Ymgeisydd B yr holl farciau yr oedd wedi'u hennill ar gyfer cydran Asesiad di-arholiad Safon Uwch Hanes.

*Corff dyfarnu: OCR*
*Cymhwyster: Cambridge Nationals Enterprise and Marketing*

Mynegodd y cymedrolwr bryderon ynghylch amheuaeth o lên-ladrad yn un o unedau'r cymhwyster uchod, oherwydd diffyg cyfeirnodi yng ngwaith ymgeiswyr.

Drwy ddefnyddio Turnitin, nodwyd dau ymgeisydd y gallent fod wedi defnyddio dulliau AI, neu Fodelau Iaith Mawr (LLMs), i gynhyrchu cynnwys ar gyfer o leiaf un Deilliant Dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys esboniadau o dermau busnes a dadansoddiadau ariannol gwahanol.

Cyfaddefodd un ymgeisydd i ddefnyddio ChatGPT yn rhannau olaf ei waith cwrs gan nad oedd wedi deall rhai o'r cwestiynau ac roedd yn teimlo bod y gefnogaeth gan yr athro'n “rhy anghyffredin”. Nododd mai'r rhesymeg oedd nad oedd yn wahanol i ofyn i'r athro am gyngor gan y byddai'r dull AI yn cymryd gwybodaeth o bob rhan o'r rhyngrwyd a gan ei fod yn gofyn cwestiynau penodol, byddai'r 'ateb' gan y dull AI yr un fath â chael cyngor ac adborth gan athro.

Cyfaddefodd yr ymgeisydd arall i ddefnyddio dull AI i gynhyrchu cynnwys ar gyfer ei waith ond nid oedd yn cofio pa adrannau o'r gwaith oedd ei waith ei hun.

Er y dywedwyd wrth y garfan am lên-ladrad a sut i'w osgoi, ni chafwyd unrhyw sôn yn benodol am ddulliau AI – er bod camddefnyddio AI yn ffurf o lên-ladrad.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd gan y ganolfan, penderfynwyd na fyddai'r un o'r ddau ymgeisydd yn derbyn unrhyw farciau ar gyfer y Deilliannau Dysgu dan sylw.

*Corff dyfarnu: Pearson Cymhwyster:*
*Project Estynedig P301*

Yn ystod adolygiad arferol o'r gwaith at ddibenion nodi achos posibl o gamddefnyddio AI, nodwyd gan feddalwedd canfod bod cyflwyniad Project Estynedig un ymgeisydd yn cynnwys sawl adran o gynnwys a gynhyrchwyd gan AI nad oeddent wedi'u cyfeirnodi. Roedd gwerthusiad pellach o'r cyflwyniad yn casglu bod sawl adran o'r gwaith yn cynnwys dangosyddion estynedig sy'n gysylltiedig ag AI a gynhyrchir. Ar ôl cysylltu â'r ganolfan, gwrthododd yr ymgeisydd ddarparu datganiad yn esbonio'r pryderon. Cyfeiriwyd yr achos at Bwyllgor Camymddwyn Pearson i'w ystyried.

Ar ôl adolygiad gofalus o'r dystiolaeth sydd ar gael, casglodd y Pwyllgor Camymddwyn fod yr ymgeisydd wedi torri canllawiau dogfen Defnyddio AI mewn Asesiadau y CGC sy'n rhoi'r diffiniad canlynol o gamymddwyn: "copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI fel nad yw'r gwaith bellach yn waith y myfyriwr ei hun" a "methiant i gydnabod y defnydd o ddulliau deallusrwydd artiffisial pan fyddan nhw wedi'u defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth".

Penderfynodd y Pwyllgor Camymddwyn y byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r cymhwyster, o ganlyniad i'r achos o gamymddwyn.

*Corff dyfarnu: AQA*
*Cymhwyster: TGAU Astudiaethau Crefyddol*

Rhoddwyd gwybod am sgript arholiad ymgeisydd i'r tîm camymddwyn gan yr arholwr a oedd yn ei farcio oherwydd ei fod wedi nodi sawl sillafiad Americanaidd ac roedd yn teimlo nad oedd yr iaith a'r cysyniadau hynod soffistigedig wedi'u cynnwys yn gyson â gwaith o safon TGAU.

Adolygwyd sgript yr ymgeisydd, a ysgrifennwyd ar brosesydd geiriau, gan ddefnyddio meddalwedd canfod AI. Cafwyd sgôr o debygolrwydd uchel bod AI wedi'i ddefnyddio. Gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu datganiad. Gwadodd ddefnyddio AI.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd, penderfynwyd bod yr ymgeisydd wedi torri amodau'r arholiad ac wedi defnyddio AI i gynhyrchu atebion yn ei arholiad. Collodd yr ymgeisydd yr holl farciau a enillwyd ar gyfer cydran.

Ar ôl y canlyniadau, casglwyd gan y ganolfan nad oedd marciau a graddau'r ymgeisydd yn gyson â'r disgwyliad neu gyflawniad blaenorol. Ar ôl canlyniad yr achos hwn a'r gwahaniaeth o ran y perfformiad fel yr amlygwyd gan y ganolfan, proseswyd holl asesiadau'r ymgeisydd drwy feddalwedd canfod AI a oedd yn dangos bod sawl cydran yn cael ei heffeithio. O ganlyniad, collodd yr ymgeisydd yr holl farciau a enillwyd ar gyfer y cydrannau yr effeithiwyd arnynt.

Yn dilyn ymchwiliad, canfuwyd nad oedd prosesydd geiriau'r ymgeisydd wedi'i osod yn gywir. Dylai mynediad i'r rhyngrwyd fod wedi'i analluogi ar gyfer y prosesydd geiriau, a fyddai wedi atal y camymddwyn hwn rhag digwydd. Yn rhan o'r ymchwiliad, roedd y corff dyfarnu'n ceisio sicrhau na fyddai achosion o'r fath yn digwydd eto. Rhoddodd y ganolfan fanylion o'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i atal y mater rhag digwydd eto, a oedd yn cynnwys ailhyfforddi goruchwylwyr ar osod prosesydd geiriau.

Corff dyfarnu: OCR
Cymhwyster: Safon Uwch Celf a Dylunio

Roedd amheuaeth bod ymgeisydd wedi defnyddio cynnwys a gynhyrchwyd gan AI o DeepL, sef adnodd cyfieithu a bwerir gan AI, yn ei lyfr braslunio ar gyfer Safon Uwch Celf a Dylunio. Esboniodd Dirprwy Bennaeth y ganolfan fod dull yr ymgeisydd yn cynnwys ymchwilio yn ei iaith ei hun ac yna cyfieithu hyn i gyd i Saesneg. Cyfaddefodd yr ymgeisydd iddo ddefnyddio DeepL i gyfieithu deunydd ffynhonnell i'w lyfr braslunio a'i fod yn gwybod nad oedd hyn yn cael ei ganiatáu ar gyfer ei asesiad. Drwy gyfieithu ei waith yn y ffordd hon, roedd yr ymgeisydd yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd cyffredinol y gwaith i bob pwrpas. O'r pwynt hwnnw ymlaen, nid oedd yn glir pa syniadau, gwybodaeth a dealltwriaeth a gyflwynwyd oedd yr ymgeisydd yn gwbl gyfrifol amdanynt.

Nododd yr athro wrth edrych dros waith yr ymgeisydd ei fod wedi sylwi ar sawl adran lle roedd y gwaith ysgrifenedig yn anghyson. Drwy ei gwaith dadansoddi mewnol ei hun, amcangyfrifodd y ganolfan fod dylanwad AI ar 98% o'r cynnwys. Esboniodd yr ymgeisydd fod y rhan fwyaf o'i ddeunyddiau academaidd yn ei iaith ei hun, a oedd yn achosi anawsterau yn ei waith. Tybiodd y byddai DeepL yn gyfieithydd dibynadwy a chywir ar gyfer ei anghenion. Fodd bynnag, nid oedd yn ymwybodol ei fod yn defnyddio cymorth AI.
Er iddo wirio gwefan DeepL, nid oedd wedi sylweddoli pa mor ddifrifol oedd defnyddio AI ar y pryd a byddai wedi osgoi defnyddio meddalwedd cyfieithu pe bai'n gwybod hynny. Dywedodd y ganolfan fod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r rheolau a'r rheoliadau ynghylch defnyddio AI yn y cyfnod cyn yr asesiad.

Mae *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad y CGC* yn gwahardd ymgeiswyr rhag defnyddio'r rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb eu cydnabod. Mae'n amlwg bod yr ymgeisydd wedi torri'r rheoliadau drwy beidio â chydnabod a chyfeirnodi'r defnydd o adnodd cyfieithu a bwerir gan AI yn ei waith. At hynny, roedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r goblygiadau gan fod y ganolfan wedi rhoi canllawiau ar gyfeirnodi ac AI ar sawl achlysur. Yn ogystal â hynny, roedd yr ymgeisydd wedi llofnodi ffurflen datganiad o ddilysrwydd yn cadarnhau mai ei waith ei hun a gyflwynwyd, ac yn nodi ei fod wedi cynnwys cyfeiriadau clir ar gyfer unrhyw ffynonellau neu ddulliau AI a ddefnyddiwyd. O ystyried yr uchod ac yn unol â dogfen *Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau y CGC*, cafodd yr ymgeisydd ei gosbi drwy golli marciau ac o ganlyniad ni chafodd unrhyw farciau am y gydran.

Corff dyfarnu: CBAC
Cymhwyster: Lefel 3 Diploma mewn Troseddeg, Asesiad dan reolaeth Uned 3

Yn ystod proses gymedroli fewnol canolfan a chyn i waith gael ei gyflwyno i CBAC ei gymedroli, roedd aseswr/athro yn y ganolfan yn amau nad gwaith yr ymgeisydd yn unig oedd rhan o'r gwaith a gyflwynwyd.

Roedd yr aseswr yn amau nad oedd rhai meini prawf asesu yn y gwaith yn cyfateb i'r gwaith a gynhyrchwyd mewn meini prawf asesu eraill a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd.

Gyda'r cymhwyster penodol hwn, caniateir i ymgeiswyr fynd â ffolder o nodiadau cyffredinol i'r asesiad yn seiliedig ar ymchwil blaenorol ar gyfer briff aseiniad heb ei weld o'r blaen.

Wrth gymharu'r meini prawf asesu dan sylw â'r nodiadau aeth yr ymgeisydd gydag ef i'r asesiad, gwelwyd bod yr ymgeisydd wedi copïo ei nodiadau air am air, a nodwyd eu bod wedi cael eu cynhyrchu gan AI. Nid oedd yr ymgeisydd wedi cyfeirnodi bod y ffynhonnell wedi cael ei chynhyrchu gan AI ac nid oedd wedi datgan hyn.

Ar ôl derbyn gwaith yr ymgeisydd, aeth CBAC ati i wirio'r gwaith ymhellach gan ddefnyddio dull canfod AI, a roddodd dystiolaeth i gadarnhau amheuaeth y ganolfan.

Ni wnaeth y gwiriadau o waith llawn yr ymgeisydd nodi unrhyw gynnwys pellach a gynhyrchwyd gan AI yn unrhyw le arall.

Fel rhan o'r ymchwiliad, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi defnyddio dull AI ar gyfer un rhan o'i nodiadau'n unig, am ei fod wedi rhuthro i baratoi ei nodiadau

cyn yr asesiad.

Ar ôl adolygiad gofalus o'r dystiolaeth sydd ar gael, casglodd CBAC fod yr ymgeisydd wedi torri canllawiau'r asesiad a dogfen *Defnyddio AI mewn Asesiadau* y CGC sy'n rhoi'r diffiniad canlynol o gamymddwyn: "*copïo neu aralleirio adrannau o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI fel nad yw'r gwaith bellach yn waith y myfyriwr ei hun*" a "*methiant i gydnabod y defnydd o ddulliau AI pan fyddan nhw wedi'u defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth*".

Gan mai dim ond mewn un maen prawf asesu y cafodd AI ei gamddefnyddio, penderfynodd CBAC y byddai'r ymgeisydd yn colli marciau ar gyfer adran. O ganlyniad i hyn, ni lwyddodd yr ymgeisydd i gyflawni'r cymhwyster cyffredinol gan fod yn rhaid bodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned a rhaid ennill nifer gofynnol o farciau ym mhob maen prawf asesu er mwyn cyflawni'r cymhwyster.

# Atodiad B: Enghreifftiau o ddefnyddio AI wrth farcio gwaith myfyrwyr

## Cyflwyniad

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut y gall athrawon ac aseswyr gymhwyso dogfen *Defnyddio AI mewn Asesiadau* y CGC, sy'n ymwneud â myfyrwyr yn defnyddio dulliau AI, pan na fydd myfyrwyr wedi bodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol, yn unol â thudalen 8 y ddogfen hon: "b) Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd, os ydyn nhw'n defnyddio AI, ni fyddan nhw wedi bodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol ac felly ni fyddan nhw'n cael marciau."
Yn yr enghreifftiau isod, nid yw myfyrwyr wedi bodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol oherwydd eu bod yn dibynnu'n ormodol ar ddulliau AI.

## Enghreifftiau

*Corff dyfarnu: Pearson Cymhwyster:*
*Safon Uwch Hanes*

Mae ymgeisydd wedi cynhyrchu gwaith cwrs o safon dda ar gyfer cydran Asesiad di-arholiad y cymhwyster. Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau a dulliau AI ac wedi cyfeirio'n briodol atyn nhw yn y gwaith. Mae'r ymgeisydd wedi dangos peth dealltwriaeth o'r testun, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n gywir ac yn briodol ar y cyfan. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi mynegi barn ar y testun dan sylw ac mae wedi rhoi cynnig ar drafod rhywfaint o safbwyntiau gwahanol. Mae'r gwaith yn glir ac yn gydlynol ond mae diffyg dyfnder.

Mae'r aseswr sy'n marcio'r gwaith yn y ganolfan yn ymgynghori â'r cynllun marcio ar gyfer y gydran hon ac yn nodi bod y gwaith yn debygol o ddenu marciau a fyddai'n ei osod yn Lefel 3. Mae'r cynllun marcio ar gyfer y lefel hon fel a ganlyn:

| Lefel | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| Lefel 3 | 17-24 | **Yn esbonio dadansoddiad ac yn ceisio gwerthuso**<br>• Mae amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n berthnasol i'r ymholiad wedi cael eu nodi o waith darllen ac mae cyfeiriadau priodol ar eu cyfer. Mae gwybodaeth wedi cael ei dewis a'i defnyddio'n briodol i ddangos dealltwriaeth o'r mater cyffredinol dan sylw.<br>• Mae barn am y cwestiwn yn ymwneud â rhai safbwyntiau allweddol a nodwyd wrth ddarllen ac mae ymgais i drafod, er nad oes llawer o gyfiawnhad. Gwelir gwybodaeth gyd-destunol am rai materion sy'n ymwneud â'r ddadl a chaiff cysylltiadau eu gwneud â rhai o'r pwyntiau a drafodir.<br>• Mae'n dadansoddi rhai o'r safbwyntiau yn y tri darn dethol drwy ddewis ac esbonio rhai pwyntiau allweddol a nodi gwahaniaethau. Mae'r esboniad yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r rhesymau dros wahaniaethau.<br>• Gwneir ymdrechion i bennu meini prawf dilys ar gyfer gwerthuso rhai dadleuon yn y gwaith dethol ac i gysylltu'r farn gyffredinol â nhw, er bod y cyfiawnhad yn wan.<br>• Caiff gwybodaeth gywir a pherthnasol ar y cyfan ei chynnwys i ddangos peth dealltwriaeth o ffocws cysyniadol yr ymholiad, ond mae diffyg amrywiaeth neu ddyfnder yn y deunydd. Mae'r ateb yn gryno ac yn dangos rhywfaint o waith trefnu. Mae tuedd gyffredinol y ddadl yn glir, ond mae diffyg rhesymeg, cydlyniad a manwl gywirdeb mewn rhannau. |

| Lefel 3 isel: 17-18 marc | Canol lefel 3: 19-21 marc | Lefel 3 uchel: 22-24 marc |
|---|---|---|
| Mae nodweddion Lefel 3 i'w gweld ond mae'r deunydd yn llai argyhoeddiadol mewn rhai agweddau **ac** nid yw'n gryno. | Mae nodweddion Lefel 3 i'w gweld ond mae'r deunydd yn llai argyhoeddiadol mewn rhai agweddau **neu** nid yw'n gryno. | Mae nodweddion Lefel 3 i'w gweld yn gadarn. |

Ar ôl ystyried yn ofalus y disgrifyddion a gwaith yr ymgeisydd, mae'r aseswr o'r farn bod y gwaith o safon lefel 3 uchel, ac yn werth 22-24 o farciau. Fodd bynnag, ar gyfer yr adran yn y gwaith lle mae'r ymgeisydd yn trafod rhai pwyntiau a gwahaniaethau allweddol rhwng tri adnodd hanesyddol, mae'r ymgeisydd wedi dibynnu ar ddull AI yn unig. Cydnabuwyd y defnydd hwn yn briodol a chyflwynwyd copi o'r mewnbwn i'r dull AI a'r allbwn a gafwyd gyda'r gwaith. Gan nad yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf marcio'n annibynnol, ni ellir rhoi marciau am yr agwedd hon ar y disgrifydd (h.y. y trydydd pwynt bwled uchod). Felly mae'r aseswr yn gosod y gwaith yng nghanol categori lefel 3, gan roi 20 marc.

Mae'r aseswr yn sicrhau bod y penderfyniad hwn ynghylch defnydd myfyriwr o AI a'i effaith ar farcio wedi'i gofnodi'n glir. Mae hyn yn cynnig adborth i'r myfyriwr ac yn cynnig eglurder os oes apêl fewnol neu os yw'r gwaith yn cael ei ddewis i'w gymedroli.

*Corff dyfarnu: Pearson*
*Cymhwyster: BTEC Lefel 3 Diploma Cenedlaethol Estynedig mewn Busnes*

Mae myfyriwr wedi cynhyrchu gwaith ar gyfer Uned 1: Archwilio Busnes. Mae'r myfyriwr wedi cynhyrchu gwaith o safon dda ac mae wedi cymharu dau fusnes gwahanol yn eithaf manwl. Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau a dulliau AI ac wedi cyfeirio'n briodol atyn nhw yn y gwaith. Yn y gwaith, mae'r myfyriwr wedi asesu perthynas y ddau fusnes â rhanddeiliaid, dadansoddi strwythurau'r ddau gorff, trafod effeithiau'r amgylchedd busnes ar y cwmnïau – gan gynnwys eu hymateb i newidiadau diweddar a newidiadau posibl yn y dyfodol i'r farchnad, ac wedi adolygu pwysigrwydd arloesi ac entrepreneuriaeth i lwyddiant un o'r cwmnïau.

Mae'r aseswr yn adolygu'r meini prawf asesu ar gyfer uned 1 yn ofalus. Mae'r rhain fel a ganlyn:

| Meini prawf asesu | | |
|---|---|---|
| Llwyddiant | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
| **Nod Dysgu A: Archwilio nodweddion busnesau gwahanol a dadansoddi beth sy'n eu gwneud yn llwyddiannus** | | |
| **A.Ll1** Esbonio nodweddion dau fusnes cyferbyniol.<br>**A.Ll2** Esbonio sut mae rhanddeiliaid yn dylanwadu ar ddau fusnes cyferbyniol. | **A.T1** Asesu'r gydberthynas a dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid dau fusnes cyferbyniol gan ddefnyddio ymchwil annibynnol. | **A.Rh1** Gwerthuso'r rhesymau dros lwyddiant dau fusnes cyferbyniol, gan fyfyrio ar y dystiolaeth a gasglwyd. |
| **Nod Dysgu B: Ymchwilio i sut y caiff busnesau eu trefnu** | | |
| **B.Ll3** Archwilio strwythur trefniadaeth, nodau ac amcanion dau fusnes cyferbyniol. | **B.T2** Dadansoddi sut mae strwythurau dau fusnes cyferbyniol yn caniatáu i bob un gyflawni ei nodau a'i amcanion. | |
| **Nod Dysgu C: Archwilio'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo** | | |
| **C.Ll4** Trafod effeithiau amgylchedd mewnol, allanol a chystadleuol ar fusnes penodol.<br>**C.Ll5** Dewis amrywiaeth o dechnegau i ymgymryd â dadansoddiad sefyllfaol o fusnes penodol. | **C.T3** Asesu effeithiau amgylchedd y busnes ar fusnes penodol. | **C.Rh2** Gwerthuso i ba raddau y mae amgylchedd y busnes yn effeithio ar fusnes penodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddi sefyllfaol. |

| Meini prawf asesu | | |
|---|---|---|
| Llwyddiant | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
| Nod Dysgu Ch: Archwilio marchnadoedd busnes | | |
| Ch.Ll6 Archwilio sut mae strwythur y farchnad a dylanwadau ar gyflenwad a galw yn effeithio ar benderfyniadau busnes penodol o ran prisiau ac allbwn. | Ch.T4 Asesu sut mae busnes penodol wedi ymateb i newidiadau yn y farchnad. | Ch.Rh3 Gwerthuso sut mae newidiadau yn y farchnad wedi effeithio ar fusnes penodol a sut y gall y busnes hwn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. |
| Nod Dysgu D: Ymchwilio i rôl a chyfraniad arloesedd a menter i lwyddiant busnes | | |
| D.Ll7 Archwilio sut mae arloesedd a menter yn cyfrannu at lwyddiant busnes. | D.T5 Dadansoddi pa mor llwyddiannus y bu'r defnydd o arloesedd a menter i fusnes penodol. | D.Rh4 Cyfiawnhau'r defnydd o arloesedd a menter i fusnes mewn perthynas â'i farchnad a'i amgylchedd newidiol. |

Mae'r aseswr yn fodlon bod y gwaith yn bodloni'r holl feini prawf Llwyddiant, Teilyngdod a Rhagoriaeth. Fodd bynnag, mae'r aseswr yn ymwybodol bod y myfyriwr wedi dibynnu ar ddefnyddio dull AI (wedi'i gydnabod yn briodol, gyda mewnbwn ac allbwn y dull AI wedi'i gyflwyno ynghyd â'r aseiniad) yn yr adran lle mae'n trafod sut gallai un o'r busnesau ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd busnes yn y dyfodol, ac nid yw wedi dangos ei ddealltwriaeth ei hun yn annibynnol y tu hwnt i hynny. Oherwydd hynny, ni all yr aseswr ddyfarnu maen prawf Ch.Rh3 a gan nad oedd y gwaith wedi bodloni'r holl feini prawf asesu Rhagoriaeth (sy'n ofynnol er mwyn ennill gradd Rhagoriaeth gyffredinol), rhoddir gradd Teilyngdod i'r gwaith ar y cyfan.

Mae'r aseswr yn sicrhau bod y penderfyniad hwn ynghylch defnydd myfyriwr o AI a'i effaith ar farcio wedi'i gofnodi'n glir. Mae hyn yn cynnig adborth i'r myfyriwr ac yn cynnig eglurder os oes apêl fewnol neu os yw'r gwaith yn cael ei ddewis i ddilysu safonau.

# Atodiad C: Darnau o reoliadau a chanllawiau'r CGC sy'n berthnasol i ddefnyddio AI

Mae'r atodiad hwn yn dwyn ynghyd wybodaeth o ddogfennau gwahanol y CGC sy'n berthnasol i gamddefnyddio AI, er mwyn gallu cyfeirio ati'n rhwydd. Nid oes angen i chi ddarllen yr atodiad llawn ac nid yw'n cynrychioli unrhyw wybodaeth newydd; y nod yw eich helpu i gael gafael ar wybodaeth gymwys yn hawdd yn y darnau isod. Mae'r rhain yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau ac ymgeiswyr, sy'n berthnasol i reoli'r defnydd o AI.

Noder mai darnau yn unig yw'r rhain ac nad ydyn nhw'n adlewyrchu'r canllawiau a'r rheoliadau llawn, y gellir cael gafael arnyn nhw drwy ddilyn y cysylltau canlynol:

Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy

Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau

Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs

Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Manylebau TAG a TGAU)

**Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy**

| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
|---|---|---|
| 5.3k | Cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan yw sicrhau bod ei ganolfan yn:<br>bod â threfniadau ar waith i gydlynu a safoni holl farcio'r cydrannau a asesir gan y ganolfan ac am sicrhau bod gwaith yr ymgeiswyr a asesir yn y ganolfan yn cael ei gynhyrchu, ei ddilysu a'i farcio neu ei asesu a'i ansawdd yn cael ei sicrhau gan ddilyn cyfarwyddiadau'r cyrff dyfarnu. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr mewnol a phreifat. | Staff y ganolfan |
| 5.3z | Cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan yw sicrhau bod ei ganolfan yn:<br>rhoi'r polisïau canlynol ar waith i'w harolygu y mae'n **rhaid** eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol:<br>• polisi camymddwyn ysgrifenedig sy'n ymdrin â phob cymhwyster y mae'r ganolfan yn ei gyflwyno. **Rhaid** i'r polisi roi manylion ynghylch y ffordd yr hysbysir ac y cynghorir ymgeiswyr i osgoi camymddwyn mewn arholiadau/asesiadau, y ffordd y dylid uwchgyfeirio materion yn ymwneud ag achosion o amau camymddwyn o fewn y ganolfan a'r ffordd o adrodd am yr achosion hynny wrth y corff dyfarnu perthnasol. **Rhaid** iddo hefyd gydnabod y defnydd o AI (e.e. beth yw AI, pryd y gellir ei ddefnyddio a sut y dylid ei gydnabod, y risgiau o ddefnyddio AI, beth yw camddefnyddio AI a sut y caiff hyn ei drin fel camymddwyn).<br>• polisi ysgrifenedig ynghylch rheoli asesiadau di-arholiad gan gynnwys asesiadau dan reolaeth a gwaith cwrs. (Ar gyfer canolfannau TGAU CCEA, polisi ysgrifenedig yn ymwneud ag asesiadau dan reolaeth fyddai hwn.) | Staff y ganolfan |
| 5.9 | Bydd y ganolfan yn:<br>e) cynnal yr holl arholiadau/asesiadau a lywodraethir gan y rheoliadau hyn yn unol â dogfennau canlynol y CGC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25:<br>Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol, Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs, Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau, Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad | Staff y ganolfan |
| 5.11 | Bydd y ganolfan yn:<br>a) cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw gamymddwyn (sy'n cynnwys camweinyddu) cyn, yn ystod ac ar ôl i arholiadau gael eu cynnal | Staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau | | |
|---|---|---|
| **Adran** | **Cynnwys** | **Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth** |
| 14.25 | Prosesydd geiriau:<br>f. rhaid ei ddefnyddio i gynhyrchu gwaith dan amodau dan oruchwyliaeth, fel arall efallai na fydd sgript yr ymgeisydd yn cael ei derbyn.<br>g. ni ddylid defnyddio prosesydd geiriau i gyflawni sgiliau sy'n cael eu hasesu;<br>h. ni ddylai'r prosesydd geiriau alluogi'r ymgeisydd i ddefnyddio rhaglenni eraill fel cyfrifianellau (lle mae hynny wedi'i wahardd yn yr arholiad), e-bost, y rhyngrwyd, safleoedd cyfryngau cymdeithasol, taenlenni;<br>j. ni ddylai'r prosesydd geiriau gynnwys meddalwedd rhagfynegi testun neu gyfrwng gwirio sillafu a gramadeg awtomatig oni bai bod yr ymgeisydd wedi cael caniatâd i ddefnyddio ysgrifennydd (rhaid llenwi taflen glawr ysgrifennydd), neu fod manyleb y corff dyfarnu'n caniatáu'r defnydd o wirydd sillafu awtomatig; | Ymgeiswyr a staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs | | |
|---|---|---|
| **Adran** | **Cynnwys** | **Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth** |
| 3.1 | **Rhaid** i'r holl waith cwrs a gyflwynir i'w asesu fod yn waith yr ymgeisydd ei hun. | Ymgeisydd |
| 5.1 | Mewn llawer o byncLau bydd ymgeiswyr yn defnyddio deunydd ffynhonnell, gan gynnwys y rhyngrwyd ac AI, wrth gyflawni eu gwaith cwrs. Fodd bynnag, **ni ddylai** ymgeiswyr gopïo deunydd o'r fath a'i hawlio fel eu gwaith eu hunain. | Ymgeisydd |
| 5.2 | Os yw ymgeiswyr yn defnyddio deunydd o ffynhonnell neu ddeunydd wedi'i gynhyrchu o ffynhonnell lle nad eu gwaith nhw ydyw / o ffynhonnell nad yw'n waith iddyn nhw eu hunain, **rhaid** iddynt nodi'r rhan/elfen/ymadrodd penodol ac o ble y daeth. **Rhaid** i ymgeiswyr roi cyfeiriadau manwl hyd yn oed os byddant yn aralleirio'r deunydd gwreiddiol.<br>Lle defnyddiwyd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur (megis Sgwrsfot AI), **rhaid** i'r cyfeirnod ddangos enw'r bot AI a ddefnyddiwyd a hefyd dyddiad cynhyrchu'r cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/). 25/01/2025. Dylai ymgeiswyr gadw copi o'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirio a dilysu. | Ymgeisydd |
| 6.1 | **Ni ddylai** ymgeiswyr wneud y canlynol:<br>• cyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;<br>• defnyddio AI, llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth neu briodoledd;<br>• camddefnyddio AI; | Ymgeisydd |
| 6.2 | Os bydd afreoleidd-dra mewn gwaith cwrs yn cael ei ganfod **cyn** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu i'r corff dyfarnu, dylid defnyddio gweithdrefnau mewnol y ganolfan i ymdrin â'r mater ac nid oes angen cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu.<br>**Rhaid** cofnodi manylion unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun ar y ffurflen gofnodi a gyflenwir gan y corff dyfarnu neu mewn man priodol arall. | Staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs | | |
|---|---|---|
| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
| 6.3 | Os bydd canolfan yn canfod afreolaidd-dra mewn gwaith cwrs **ar ôl** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, **rhaid** i Bennaeth y Ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol ar y cyfle cyntaf. | Staff y ganolfan |
| 6.7 | **Rhaid** i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr priodol sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwylio'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu gwaith cwrs yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn. | Staff y ganolfan |
| 7.1 | Rhaid i bob ymgeisydd (diffiniad ymgeisydd yw unigolyn y mae cofrestriad ar ei gyfer am yr uned neu'r cymhwyster) lofnodi datganiad wrth gyflwyno ei waith cwrs i'w athro i'w asesu'n derfynol.<br>Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Mae hyn er mwyn cadarnhau mai ei waith ei hun ydyw a bod unrhyw gymorth a gafwyd a/neu ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud hyn.** Rhaid i ganolfannau gofnodi marciau **'0'** (sero) os na all ymgeiswyr gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu. | Ymgeiswyr a staff y ganolfan |
| 7.2 | **Rhaid** i athrawon gadarnhau bod yr holl waith a gyflwynwyd i'w asesu wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol a'u bod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd unigol yn unig yw'r gwaith. Os na allant wneud hynny, **ni ddylid** derbyn y gwaith i'w asesu.<br>**Rhaid** i bob athro lofnodi'r datganiad dilysu ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Gall methu â llofnodi'r datganiad dilysu ohirio prosesu canlyniadau'r ymgeisydd.<br>**Os gwelir nad yw'r gwaith wedi'i ddilysu'n gywir yn ystod y broses gymedroli allanol, yna bydd y corff dyfarnu'n gosod y marc(iau) a roddwyd gan y ganolfan yn '0' (sero).** | Staff y ganolfan |
| 7.3 | Dylai'r athro fod yn ddigon ymwybodol o safon yr ymgeisydd a lefel ei waith i nodi a yw'r gwaith cwrs sy'n cael ei gyflwyno y tu hwnt i allu'r ymgeisydd. | Staff y ganolfan |
| 7.4 | Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau, mae'r athrawon yn gyfarwydd â gwaith ymgeiswyr drwy waith dosbarth a gwaith cartref. Lle nad yw hyn yn wir, dylai athrawon ofyn bod gwaith cwrs yn cael ei gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol. | Staff y ganolfan |
| 7.5 | Ym mhob achos, mae angen rhywfaint o oruchwyliaeth uniongyrchol i sicrhau bod modd dilysu'n hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith cwrs a gyflwynir. | Staff y ganolfan |
| 7.6 | Os oes gan athrawon amheuon ynglŷn â llofnodi datganiadau dilysu, dylid dilyn y cyfarwyddyd canlynol:<br>• os credir bod ymgeisydd wedi derbyn cymorth ychwanegol a bod hyn yn dderbyniol o fewn canllawiau'r fanyleb berthnasol, dylai'r athro roi marc sy'n cynrychioli cyflawniad digymorth yr ymgeisydd. **Rhaid** llofnodi'r datganiad dilysu a rhoi'r wybodaeth ar y ffurflen berthnasol;<br>• os nad yw'n bosibl i'r athro lofnodi datganiad dilysu ymgeisydd penodol, yna ni ellir derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu. **Rhaid** cyflwyno marc **'0'** (sero);<br>• os oes amheuaeth bod camymddwyn, rhaid ymgynghori ag aelod o'r uwch dîm<br>**arwain ynglŷn â'r drefn i'w dilyn.** | Staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs | | |
|---|---|---|
| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
| 8.1 | Wrth farcio gwaith cwrs, **rhaid** i athrawon dalu sylw agos at ofynion y fanyleb. Dylai athrawon nodi mai eu cyfrifoldeb nhw yw rhoi marciau am waith cwrs gan ddilyn y meini prawf marcio a nodir ym manyleb y corff dyfarnu a dogfennau cysylltiol pwnc-benodol. **Rhaid** i athrawon ddangos yn glir sut y rhoddwyd y marciau mewn perthynas â'r meini prawf marcio hyn. **Rhaid** i farciau'r ganolfan adlewyrchu cyflawniad cymharol yr ymgeiswyr i gyd.<br><br>**Ni ddylai** athrawon ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel yr unig ffordd o farcio gwaith ymgeiswyr. | |
| Atodiad 2 – Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau gwaith cwrs yn weithredol o 1 Medi 2024 | | |
| | Gallwch ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o bwnc trwy ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau neu wybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu o ffynonellau a allai gynnwys y rhyngrwyd ac AI. Cofiwch, fodd bynnag, gallai'r wybodaeth o'r ffynonellau hyn fod yn anghywir neu gallai ddangos tuedd. **Rhaid** i chi ofalu sut rydych chi'n defnyddio'r deunydd hwn – **ni chewch** ei gopïo a honni mai eich gwaith eich hun yw'r gwaith.<br><br>Mae'r rheoliadau'n nodi:<br>'**rhaid** mai eich gwaith chi yn unig yw'r gwaith a gyflwynwch i'w asesu;'<br><br>Lle defnyddiwyd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur (megis Sgwrsfot AI), **rhaid** i'ch cyfeirnod ddangos enw'r bot AI a ddefnyddiwyd a hefyd dyddiad cynhyrchu'r cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2025. **Rhaid** i chi gyflwyno copi o'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur gyda'ch gwaith at ddibenion cyfeirio a dilysu.<br><br>**Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio unrhyw atebion ar-lein sydd wedi'u paratoi neu eu cynhyrchu ymlaen llaw a honni mai eich gwaith chi ydyw — twyllo yw hyn.** Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan gyrff dyfarnu ganfod y math hwn o gopïo.<br><br>Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn, syniadau neu allbwn rhywun arall a honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n ffurf o dwyllo ac mae'n cael ei ystyried yn ddifrifol iawn.** | Ymgeisydd |

| Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Manylebau TAG a TGAU) | |
|---|---|
| **Sut mae'r cyrff dyfarnu'n monitro'r broses o reoli asesiadau di-arholiad mewn canolfannau?**<br><br>Mae cyrff dyfarnu yn gofyn i bob canolfan gael polisi asesiad di-arholiad ar waith i wneud y canlynol:<br><br>• cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynllunio a rheoli asesiadau di-arholiad;<br>• diffinio rolau a chyfrifoldebau staff yng nghyd-destun asesiadau di-arholiad;<br>• rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag asesiadau di-arholiad. | Staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Manylebau TAG a TGAU) | | |
|---|---|---|
| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
| 4.1 Goruchwyliaeth | Lle y bo'n briodol i'r gydran sy'n cael ei hasesu, y trefniadau canlynol sy'n berthnasol oni bai bod manyleb y corff dyfarnu'n nodi fel arall.<br><br>**Nid** oes rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio dulliau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Mae'n **rhaid** i ganolfannau bob amser wirio'r gofynion pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu.<br><br>**Rhaid** i'r ganolfan sicrhau:<br><br>• bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn galluogi dilysu'r gwaith;<br><br>• mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.<br><br>Gellir cwblhau'r gwaith y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd.<br><br>**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn deall yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer asesiadau di-arholiad. Amlinellir hyn yn nogfen y CGC ***Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad***.<br><br>**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr:<br><br>• yn deall bod yn rhaid cyfeirio at wybodaeth o bob ffynhonnell;<br><br>• yn derbyn canllawiau ar sut i gyfeirio'n gywir;<br><br>• yn ymwybodol na ddylent lên-ladrata o ddeunyddiau eraill. | Staff y ganolfan |
| 4.3 Adnoddau | **Pa adnoddau a ganiateir?**<br><br>Mewn nifer o bynciau, bydd ymgeiswyr yn defnyddio deunydd ffynhonnell, gan gynnwys y rhyngrwyd ac AI, wrth ymchwilio ac wrth gynllunio eu tasgau. **Fel arfer** mae gan ymgeiswyr fynediad heb ei gyfyngu at adnoddau. Mae'n **rhaid** i ganolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau,* yn ogystal â manyleb y corff dyfarnu a/neu ddogfennaeth gysylltiedig a gyhoeddwyd gan y cyrff dyfarnu a'r rheoleiddiwr.<br><br>Mae rhai pynciau yn gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu'r gwaith i'w asesu mewn sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol. Oni bai fod manyleb y corff dyfarnu yn nodi fel arall, ar gyfer pob sesiwn dan oruchwyliaeth ffurfiol:<br><br>• mae cyfyngiadau llym bob amser o ran defnyddio adnoddau ac fel arfer dim ond nodiadau paratoadol yr ymgeisydd a ganiateir;<br><br>• **ni** chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd;<br><br>• **ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio eu cyfrifiaduron eu hunain na dyfeisiau electronig eraill, e.e. ffonau symudol.<br><br>**A all ymgeiswyr gyflwyno adnoddau newydd rhwng sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol?**<br><br>**Na allant. Ni chaniateir** i ymgeiswyr ychwanegu at nodiadau nac adnoddau rhwng sesiynau. Pan fydd gwaith i'w asesu wedi'i gynhyrchu dros nifer o sesiynau, **rhaid** casglu'r deunydd canlynol a'i storio'n ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn (ac **ni ddylai** fod ar gael i ymgeiswyr):<br><br>• y gwaith i'w asesu;<br><br>• gwaith paratoadol. | Ymgeiswyr a staff y ganolfan |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs | | |
|---|---|---|
| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
| 4.3 Adnoddau (Parhad) | Mae angen cymryd rhagofalon ychwanegol os yw'r ganolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifiaduron i storio gwaith. Gallai hyn gynnwys casglu ffyn cof i'w storio'n ddiogel rhwng sesiynau neu rwystro ymgeiswyr rhag cael mynediad i ardaloedd penodol o rwydwaith TG y ganolfan.<br>**Sut dylid cydnabod ffynonellau?**<br>**Rhaid** i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu gynnwys cyfeiriadau lle bo'n briodol. Er mwyn hwyluso'r broses hon, dylai pob ymgeisydd gadw cofnod manwl o'i waith ymchwil, gwaith cynllunio, adnoddau ac ati. Dylai'r cofnod gynnwys yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys llyfrau, gwefannau a ffynonellau sain/gweledol.<br>Rhoddir arweiniad yn nogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad* | |
| 4.6 Gweithdrefnau dilysu | **Sut mae gwaith ymgeiswyr yn cael ei ddilysu?**<br>**Rhaid** i athrawon fod yn ddigon cyfarwydd â safon gyffredinol yr ymgeisydd i farnu p'un ag yw darn o waith a gyflwynir o fewn ei allu.<br>Lle bo'n ofynnol gan fanyleb y corff dyfarnu, mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol.<br>**Rhaid** i bob ymgeisydd lofnodi datganiad i gadarnhau mai ei waith digymorth ei hun yw'r gwaith a gyflwynir ar gyfer asesiad terfynol.<br>**Rhaid** i athrawon lofnodi datganiad dilysu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau yn cadarnhau'r canlynol:<br>• mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith;<br>• bod y gwaith wedi'i gwblhau dan yr amodau gofynnol.<br>Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Bydd enwau sydd wedi'u teipio yn cael eu hystyried yn rhai sy'n rhwymol fel llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw.<br>**Beth os yw athro yn amau dilysrwydd y gwaith?**<br>Os na all athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith sydd wedi'i gyflwyno a'i fod wedi'i gwblhau dan yr amodau gofynnol:<br>• **peidiwch** â derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu;<br>• cofnodwch farc o '0' (sero) am y gwaith a asesir yn fewnol.<br>Os yw athrawon yn poeni am achos posibl o gamymddwyn, neu os na allant ddilysu'r gwaith am unrhyw reswm arall, **rhaid** iddynt roi gwybod i aelod o'r uwch dîm arwain (gweler adran 9).<br>**Os gwelir nad yw'r gwaith wedi'i ddilysu'n gywir yn ystod y broses gymedroli allanol, yna bydd y corff dyfarnu'n gosod y marc(iau) a roddwyd gan y ganolfan yn '0' (sero).** | Staff y ganolfan a'r ymgeisydd |

| Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs | | |
|---|---|---|
| Adran | Cynnwys | Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth |
| 6.1 Marcio ac anodi | Mae athrawon yn gyfrifol am farcio gwaith yn unol â'r meini prawf marcio a nodir yn y fanyleb berthnasol a dogfennau pwnc-benodol cysylltiedig.<br><br>**Ni ddylai** athrawon ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel yr unig ffordd o farcio gwaith ymgeiswyr. | Staff y ganolfan |
| 9 Camymddwyn | **Ni ddylai** ymgeiswyr wneud y canlynol:<br>• cyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;<br>• darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd;<br>• caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol;<br>• cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;<br>• defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau;<br>• cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth;<br>• cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.<br><br>**Rhaid** i staff addysgu:<br>• fod yn wyliadwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol;<br>• codi a rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu. | Ymgeiswyr a staff y ganolfan |

# Cysylltiadau cyrff dyfarnu

Gall canolfannau ac aseswyr gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am fwy o gyngor ac arweiniad wrth farcio gwaith ar gyfer cymhwyster penodol.

AQA

Ffôn: 0800 197 7162

Ffôn: +44 161 696 5995 (y tu allan i'r DU) E-bost: eos@aqa.org.uk

Gwefan: www.aqa.org.uk/contact-us

CCEA

Ffôn: 02890 261 200

E-bost: info@ccea.org.uk

Gwefan: www.ccea.org.uk/contact

City & Guilds

Ffôn: 0844 543 0033

E-bost: learnersupport@cityandguilds.com

E-bost: general.enquiries@cityandguilds.com

Gwefan: www.cityandguilds.com/help/contact-us

NCFE

E-bost: customersupport@ncfe.org.uk

Ffôn: 0191 239 8000

Gwefan: https://www.ncfe.org.uk/contact-us

OCR

Ffôn: 01223 553 998

E-bost: support@ocr.org.uk

Gwefan: www.ocr.org.uk/contact-us

Pearson

Ffôn: 0845 618 0440

Ffurflen ar y we: http://qualifications.pearson.com/en/forms/ contact-the-team.html

Gwefan: http://qualifications.pearson.com/en/contact-us.html

CBAC/WJEC

Ffôn: 02920 265 000

E-bost: gwybodaeth@cbac.co.uk

Gwefan: https://www.cbac.co.uk/home/amdanom-ni/cysylltiadau-defnyddiol/